GIG CYMRU
NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithio i Wella

## Lleisio Pryder am Wasanaethau Iechyd



Gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc

30679 w.indd 1 03/03/2017 09:41

## Helo!

**Mae nyrsys, doctoriaid a phobl eraill sy’n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn gwneud eu gorau i fod yn siŵr dy fod ti'n cael y gofal cywir pan fyddi di'n sâl. Ond weithiau efallai y byddi di'n anhapus â’r ffordd y byddi di wedi cael dy drin.**

Mae lleisio pryder yn golygu siarad am rywbeth rwyt ti'n anhapus amdano neu ddim yn ei hoffi sy’n gwneud iti boeni neu deimlo’n grac.

Mae’n bwysig dweud wrth rywun os wyt ti'n anhapus, fel y gallan nhw dy helpu di a cheisio gwneud popeth yn iawn.

Efallai y byddi di'n poeni am:

- Y gofal neu’r driniaeth gefaist ti
- Y lle y cefaist ti dy driniaeth fel gyda’r doctor neu’r deintydd, mewn ward yn yr ysbyty neu ambiwlans
- Y bobl sydd wedi bod yn gofalu amdanat ti



**Mae’r daflen hon yn dweud beth i’w wneud os wyt ti'n poeni am unrhyw beth.**

30679 w.indd 2 03/03/2017 09:41

Os wyt ti'n poeni, dylet ti ddweud wrth rywun cyn gynted â phosib. Yna gall y bobl sy'n gweithio yno wneud eu gorau i ddelio â'r broblem yn syth a newid pethau fel na fydd yn digwydd eto.

Ond beth os nad wyf i eisiau siarad â'r bobl sy'n gofalu amdana i?

Os nad wyt ti eisiau siarad â rhywun sy'n gweithio yno ar dy ben dy hunan, galli di ofyn i dy fam, dy dad neu oedolyn arall sy'n gofalu ar dy ôl di.

Dw i ddim eisiau gwneud hynny – oes rhywun arall alla i siarad â nhw?

Oes! Cysyllta â **Meic**, y llinell gymorth a chyngor i blant a phobl ifanc Cymru.

Gall y bobl yn **Meic** dy helpu di. Mae e am ddim a galli di gysylltu unrhyw bryd drwy ffonio **080880 23456 neu anfon tecst i 84001**.

Os wyt ti eisiau gwybod mwy – cer i **www.meiccymru.org/cym**




30679 w.indd 3 03/03/2017 09:41



## Beth fydd yn digwydd pan fydda i wedi lleisio pryder?

Efallai y bydd rhywun lle cefaist ti dy driniaeth am siarad â ti am beth ddigwyddodd. Paid â phoeni, galli di ofyn i ffrind, dy dad neu dy fam neu aelod arall o'r teulu fod yno gyda ti drwy'r amser i dy helpu.

Bydd y bobl a fydd am siarad â ti yn dod i wybod mwy am beth wnaeth ddigwydd sy'n gwneud iti boeni. Byddan nhw wedyn yn rhoi gwybod iti beth maen nhw wedi dod o hyd iddo a beth maen nhw'n mynd i'w wneud.

Wedyn, os byddi di dal yn anhapus gallet ti ofyn i'r Ombwdsmon dy helpu. Dyw'r Ombwdsmon ddim yn gweithio i'r gwasanaeth iechyd. Bydd e'n gallu cael gwybod mwy a phenderfynu a wyt ti wedi cael y gofal cywir.

**Y rhif ffôn yw 0300 790 0203 neu cer i'w gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk – cofia, galli di ofyn i rywun dy helpu di os wyt ti eisiau cysylltu â'r Ombwdsmon.**



OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2017
WG30679 (Fersiwn 2)
ISBN digidol 978 1 4734 8477 1 ISBN argraffu / Print ISBN 978 1 4734 8478 8

30679 w.indd 4 03/03/2017 09:41